Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Mr Michael Gray
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau
Cymdeithasol Cyngor Sir Penfro

Dyddiad / Date: 13 Mehefin 2024

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Ymweliad Gwiriad Gwella â Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Penfro**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau'r ymweliad Gwiriad Gwella â Chyngor Sir Penfro rhwng 22 Ebrill 2024 a 25 Ebrill 2024. Gwiriad Gwella yn dilyn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Ebrill 2022 oedd hwn.
Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; llinellau ymholi allweddol; a'r safonau ansawdd yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

Canolbwyntiodd y Gwiriad Gwella ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd canlynol y nodwyd bod angen eu gwella yn ystod ein Harolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Ebrill 2022:

| Egwyddor | Meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Ebrill 2022 | Cynnydd a nodwyd yn ystod y gwiriad gwella |
|---|---|---|
| Pobl | Oedi wrth helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau<br><br>Weithiau, roedd yn anodd nodi sut roedd anghenion gofalwyr yn cael eu hystyried, na thystiolaeth o gynnig pendant o asesiad.<br><br>Oedi wrth ymateb a chynnal asesiadau pan ofynnodd gofalwyr am help. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach.<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach.<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach. |
| | Mae ymarferwyr yn deall pwysigrwydd darparu gwasanaeth yn newis iaith pobl.<br><br>Gallai gymryd amser hir iddynt gael gafael ar ofal cymdeithasol drwy'r brif linell gyswllt. | Ni wnaed unrhyw welliannau – angen camau gweithredu.<br><br>Ni wnaed unrhyw welliannau – angen camau gweithredu. |
| Atal | Ni chaiff rhai pobl eu hasesu mewn modd amserol. Pan na chynhelir adolygiadau, mae risg hefyd na chaiff anghenion newidiol pobl eu diwallu.<br><br>Effeithiodd y pandemig ar ddull yr awdurdod lleol o sicrhau ansawdd oherwydd y rhoddwyd blaenoriaeth i feysydd eraill. | Ni wnaed unrhyw welliannau – angen camau gweithredu.<br><br>Rhai gwelliannau wedi'u gwneud;<br>angen cymryd camau pellach |

| | | |
|---|---|---|
| Llesiant | Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau na fydd diogelwch y bobl yn y fantol drwy sicrhau bod dadansoddiad clir gyda rhesymeg sy'n seiliedig yn llwyr ar dystiolaeth yn gyson.<br><br>Mae'n hanfodol bod yr awdurdod lleol yn ystyried risgiau uniongyrchol i unigolion ynghyd â phobl eraill a all fod yn wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Roedd prosesau dadansoddi a dyfnder meddwl critigol ymarferwyr oedolion yn amrywiol.<br><br>Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i reoli gweithgarwch diogelu oedolion. | Ni wnaed unrhyw welliannau – angen camau gweithredu.<br><br>Ni wnaed unrhyw welliannau – angen camau gweithredu.<br><br>Ni wnaed unrhyw welliannau – angen camau gweithredu. |
| | Ar rai adegau, roedd oedolion yn cael eu dargyfeirio i gael eu cefnogi gan wasanaethau atal heb gynnal asesiad o anghenion cymwys. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud; angen cymryd camau pellach. |
| Partneriaeth | Rhaid i uwch-reolwyr ym mhob rhan o'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd gydweithio i ddatrys pryderon a nodwyd mewn perthynas â phartneriaethau sy'n methu ar lefelau strategol mewn rhai meysydd. | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |

## 2. Crynodeb

- Mae'r arferion diogelu yn anghyson ac nid yw'r dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni bob amser. Er bod y tîm diogelu yn blaenoriaethu cynnydd mewn gwaith, cymhlethdod a risg cyn gynted ag y bo'n ymarferol, mae'n cau ffeiliau yn rhy gynnar pan y gallai fod angen cynlluniau diogelu gofal a chymorth.

- Cyfyngedig fu'r cynnydd o ran lleihau achosion o oedi wrth asesu ac adolygu cynlluniau gofal a chymorth pobl.

- Mae'r awdurdod lleol wrthi'n gweithio drwy sawl maes gweithgarwch a gynlluniwyd i wella ei ymatebion wrth ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl. Mae hyn yn cynnwys gwaith ad-drefnu sylweddol mewn timau allweddol.

- Ceir arwyddion bod modelau gweithio newydd, fel yn y Tîm Cyswllt Cyntaf a diwrnodau asesu yn y gymuned, yn creu buddiannau o ran y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu.

- Caiff ymarfer ei ategu gan ddull sy'n seiliedig ar gryfderau, gyda safbwyntiau pobl yn cael eu cynrychioli'n glir.

- Mae uwch-reolwyr yn disgrifio cymorth corfforaethol gwell, ond mae llawer o'r staff yn disgrifio diffyg cysylltiad ar y lefel hon a diffyg dealltwriaeth o'r gofynion ar y gwasanaeth.

## 3. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Caiff canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### <u>Pobl</u>

### Cryfderau

- Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ad-drefnu timau ardaloedd lleol. Rhagwelir y bydd hyn yn rhoi cyfle gwell i fodloni gofynion a sicrhau gwell tegwch ledled y wlad. Mae'r Tîm Cyswllt Cyntaf, sy'n ymgymryd â swyddogaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, hefyd yn cael ei ad-drefnu i wella amseroldeb ac ansawdd yr ymateb. Mae dull gweithredu newydd yn golygu bod 85% o gysylltiadau yn cael eu cyfeirio at wasanaethau cymunedol (yn

seiliedig ar werthusiad diweddar gan Gyngor Sir Penfro o garfan o gysylltiadau).

- Caiff pob cyswllt ei sgrinio'n gychwynnol drwy weithiwr cymdeithasol a/neu therapydd galwedigaethol. Cynhelir asesiad risg ac eir i'r afael â materion critigol neu frys o fewn 48 awr. Cynhelir proses sgrinio ychwanegol gan reolwyr ardaloedd lleol.

- Treialwyd diwrnodau asesu yn y gymuned yn ddiweddar. Mae'r dull hwn, a gaiff ei gydlynu â phartneriaid, yn galluogi gwasanaethau i ddod ynghyd i roi ymateb amser real i'r bobl sy'n mynychu yn bersonol. Ceir tystiolaeth eisoes bod pobl yn cael eu cyfeirio'n brydlon at gymorth cymunedol a gwasanaethau ffurfiol perthnasol. Arweiniodd un enghraifft at gynnal asesiad cwympo ar yr un diwrnod ar ôl i deulu fynd i ddigwyddiad mewn lleoliad gwledig.

- Cyflwynwyd y Fforwm Ymarfer Gofal yn ystod hydref 2023. Fforwm yw hwn ar gyfer cefnogi a herio ymarferwyr wrth eu gwaith gydag unigolion a theuluoedd ac argymhellion ar gyfer gofal a chymorth. Mae'n rhoi trosolwg cadarnhaol, gan sicrhau y canolbwyntir ar ganlyniadau'r person, a thynnu sylw at safbwyntiau a dymuniadau'r gofalwyr. Caiff buddiannau'r panel eu gwella drwy gyfranogiad amlasiantaethol, gyda gwasanaethau'n cael eu cynrychioli fel Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) a Thîm Gofal a Alluogir gan Dechnoleg. Ni cheir cynrychiolaeth o'r bwrdd iechyd ar hyn o bryd a fyddai'n gwella dull partneriaeth.

- Ar y cyfan, mae'r gweithgarwch a ymgymerir gan ymarferwyr yn cynrychioli safbwyntiau'r person. Ategwyd hyn drwy ein cyswllt â gofalwyr a phobl sy'n cael gwasanaethau. Mae'r enghreifftiau o ymarfer gorau yn dangos dull sy'n seiliedig ar gryfderau mewn sgyrsiau am Yr Hyn Sy'n Bwysig, gan nodi'n glir yr hyn sy'n gweithio'n dda, yr heriau a wynebir a chynlluniau gofal a chymorth a gaiff eu llunio ar y cyd.

- Mae'r rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref wedi bod yn lleihau. Ym mis Gorffennaf 2023, roedd 40 o bobl yn aros, a gostyngodd hyn i lai na 10 o bobl yn ystod wythnos yr arolygiad. Mae ymarfer ail-dendro diweddar wedi arwain at roi pecynnau gofal mwy amserol i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig.

- Mae ein harolwg pobl yn dangos bod sawl aelod o staff (83% o'r ymatebwyr) yn cael cefnogaeth dda gan gydweithwyr a rheolwyr yn eu tîm. Mae'r sylwadau gan staff pan wnaethom ymgysylltu'n bersonol â nhw yn cyd-fynd â'r

canfyddiad hwn, sy'n dangos gweithlu ymroddedig sy'n cael cefnogaeth gref gan gymheiriaid ar lefel tîm.

**Meysydd i'w gwella**

- Mae oedi wrth asesu ac adolygu cynlluniau gofal a chymorth pobl yn bryder parhaus. Nid yw rhai atgyfeiriadau a gaiff eu sgrinio fel blaenoriaeth uchel yn cael asesiad am sawl mis. Mae enghreifftiau pan gaiff ymyriad gofal cymdeithasol ei oedi ac wrth i'r galw ar ofalwyr anffurfiol gynyddu, gall sefyllfa'r person sy'n derbyn gofal waethygu. **Fel rhan o'i waith ailstrwythuro, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod mesurau penodol ar waith i fynd i'r afael â'r oedi wrth gynnal asesiadau ac adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth.**

- Mae problemau integredd â rhywfaint o ddata perfformiad sy'n golygu ei bod yn amhosibl rhoi cyfrif cywir o'r sefyllfa ar adeg yr arolygiad. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod gwybodaeth perfformiad dibynadwy ar gael.**

- Mae cyfleoedd clir i ddeall anghenion gofalwyr drwy asesiad (p'un a yw'n asesiad penodol neu ar y cyd â'r person sy'n derbyn gofal) yn amrywio o ran arferon. Mae enghreifftiau o arferion cadarnhaol sy'n cyfleu sefyllfa a safbwyntiau'r gofalwr yn glir a sut y gall ffurfiau amrywiol ar gymorth anffurfiol neu ffurfiol helpu. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod asesiadau'n mynd i'r afael ag anghenion gofalwyr yn gyson.**

- Mae heriau wrth ddod o hyd i wasanaethau, fel gofal yn y cartref a gofal seibiant brys, ynghyd ag adnoddau cyfyngedig, yn rhoi pwysau ychwanegol ar ofalwyr anffurfiol ac yn cynyddu'r risg y bydd sefyllfaoedd yn cyrraedd argyfwng. Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau i wella hyn, fel mabwysiadu'r cyflog byw gwirioneddol ar gyfer gofalwyr a gweithwyr cymdeithasol a thelerau ac amodau gwell. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn parhau i wella'r modd y mae'n comisiynu ac yn rhoi cymorth i'r person sy'n derbyn gofal a'r gofalwyr anffurfiol.**

- Er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae rhai pobl yn gorfod symud i gartref gofal neu aros am gyfnod hwy yn yr ysbyty am nad yw gwasanaethau cymorth cartref ar gael bob amser lle maent yn byw. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i wella'r broses o gomisiynu gwasanaethau er mwyn sicrhau ei allu i gefnogi pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn y wlad.**

- Mae cysylltu â gofal cymdeithasol yn heriol i lawer o bobl o hyd. Nododd 65% o bobl yn ein harolwg fod cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol ‘ddim yn hawdd’ neu'n ‘anodd iawn’. Gall y prosesau cyfathrebu rhwng yr ymarferwyr a'r bobl fod yn anghyson, gyda phobl yn nodi bod oedi cyn dychwelyd galwadau yn bryder cyffredin. Mae llawer o bobl yn dweud nad ydynt yn cael cyngor a gwybodaeth brydlon am wasanaethau a allai helpu eu sefyllfa. Mae hyn yn golygu nad yw'r dull ataliol ar y pwynt cyswllt cyntaf yn ddigon cadarn. Mae cynlluniau ar gyfer un pwynt cyswllt gofal cymdeithasol, gan gynnwys cyd-leoli â gwasanaethau'r trydydd sector. Erbyn diwedd y flwyddyn hon, bydd llinell ffôn benodol ar waith, gan ddisodli'r pwynt cyswllt cyntaf corfforaethol presennol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y cynlluniau o ran y tîm cyswllt cyntaf yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro mewn modd amserol.**

- Mae'r sefyllfa ariannol, gyda'r angen i nodi arbedion effeithlonrwydd ym mhob rhan o'r gwasanaethau yn golygu bod y cyd-destun presennol yn heriol iawn, ac mae rheolwyr yn dweud bod sgyrsiau gwell yn cael eu cynnal gyda chynghorwyr ynghylch gofynion o ran adnoddau ar hyn o bryd. Maent yn dweud bod gwell dealltwriaeth gorfforaethol o'r heriau a wynebir mewn gofal cymdeithasol. Mae diogelu oedolion bellach ar y gofrestr risg gorfforaethol ac mae dangosfwrdd corfforaethol wrthi'n cael ei ddatblygu a fydd yn helpu i olrhain a monitro cynnydd. Fodd bynnag, mae llawer o staff yn disgrifio diffyg cysylltiad ag uwch-arweinwyr corfforaethol. Maent yn awgrymu bod diffyg dealltwriaeth ynghylch y risgiau wrth ddarparu gwasanaethau ac effaith prosesau gwneud penderfyniadau corfforaethol ar dimau sy'n ceisio darparu gwasanaethau statudol. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn hyrwyddo diwylliant o ymgysylltiad rheolaidd â staff, gan roi cyfleoedd i leisiau pobl gael eu clywed.**

- Mae ymrwymiad i gynnig yr opsiwn o gael gwasanaethau yn Gymraeg i bobl, a gwelsom dystiolaeth bod y cynnig yn cael ei wneud. Mewn un enghraifft, gwnaethom nodi anhawster i ddod o hyd i gynorthwyydd personol sy'n siarad Cymraeg drwy daliadau uniongyrchol, lle mai Cymraeg oedd dewis iaith y person. Mewn enghraifft arall, ni allai tîm gynnig ymarferydd sy'n siarad Cymraeg. Lle y nodir bod hyn yn sylfaenol, fel ystyried asesiad o alluedd meddyliol, dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei hwyluso drwy waith ar draws timau, i sicrhau y caiff hawliau a llesiant y person eu cynnal. Cynigir hyfforddiant Cymraeg i'r holl staff. Mae'n ofynnol i staff comisiynu sicrhau bod gwasanaethau gofal yn cael eu darparu yn Gymraeg lle y bo modd. Fodd bynnag, ni allant gyflawni hyn bob amser ac, yn aml, rhaid iddynt gydbwyso'r cais yn erbyn yr angen, a all olygu na fydd unigolion yn cael gofal yn eu dewis iaith. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i fonitro a gwneud gwelliannau mewn perthynas â hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg**

**ac mae'n gweithio ynghyd â gwasanaethau a gomisiynwyd i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn eu tro yn hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.**

**<u>Atal</u>**

**Cryfderau**

- Un o gryfderau allweddol Cyngor Sir Penfro yw ei ymrwymiad i ddatblygu busnesau micro a chymdeithasol fel rhan o'i ddull ataliol. Mae hyn yn rhan sylweddol o'i strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2023-2028. Ceir adborth cadarnhaol gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, gan gyfeirio at y modd maent yn cefnogi eu hannibyniaeth. Er enghraifft, gall busnesau micro y gellir cael gafael arnynt drwy daliadau uniongyrchol gefnogi dewis o ran gofal a lleihau amseroedd aros am gymorth cartref, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae hwn yn faes lle ceir **arferion da**, gyda chefnogaeth gynyddol gan fusnesau micro wrth i'r rhan hon o'r sector ddatblygu.

- Mae rhestr aros fer ar gyfer cymorth ail-alluogi, ond caiff hyn ei sgrinio a'i weithredu'n wythnosol. Mae gwasanaethau ‘camu i fyny/camu i lawr’ ar gael yn Martello House a gwneir defnydd da ohonynt.

- Mae cynllun peilot yn mynd rhagddo i dreialu'r broses o gael staff mewn ysbytai i fod yn aseswyr dibynadwy a all gwblhau asesiad er mwyn cael gafael ar wasanaethau ail-alluogi neu gamu i lawr yn uniongyrchol. Mae hwn yn faes a gaiff ei gefnogi a'i fonitro, er mwyn galluogi pobl i adael yr ysbyty a chael annibyniaeth yn gynt.

- Defnyddir rolau aseswyr dibynadwy hefyd wrth ail-alluogi er mwyn archebu cyfarpar a gall cynorthwyydd gofal cymdeithasol yn y tîm wneud cais am ofal pan nodir bod angen pecyn gofal tymor hwy. Mae hyn yn golygu nad oes angen dyrannu o fewn tîm ardal leol ar yr adeg hon ac mae'n osgoi oedi wrth roi cymorth.

- Mae partneriaethau creadigol a hyblyg rhwng cymorth cartref mewnol a gwasanaethau ail-alluogi. Er enghraifft, mae'r adnoddau yn y gwasanaeth ail-alluogi yn cael eu defnyddio i sicrhau y caiff cleifion eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amserol drwy atgyfnerthu pecyn gofal am gyfnod byr i sicrhau y gellir trefnu cymorth cartref.

**Meysydd i'w gwella**

- Mae adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hoedi'n gyson. Mae enghreifftiau o amgylchiadau pobl yn newid, gydag anghenion a risg yn gwaethygu wrth iddynt aros am adolygiad. Rhoddir blaenoriaeth i adolygiadau cychwynnol o ddarpariaeth cartref (o fewn 6 wythnos), a lleoliadau gofal (o fewn 12 wythnos). Fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth is i adolygiadau blynyddol ar hyn o bryd ac yn aml maent yn mynd y tu hwnt i'r terfyn amser. Mae dibyniaeth ar wasanaethau neu ddarparwyr yn diweddaru gofal cymdeithasol os bydd amgylchiadau'n newid, ond ni ellir dibynnu ar hyn bob amser. Mae hyn yn golygu bod angen gofal a chymorth dwys a brys ar rai pobl y mae eu sefyllfa wedi gwaethygu cymaint. Un enghraifft yw gofalwr anffurfiol yn gofyn am gymorth ychwanegol am fod anghenion ei berthynas anabl wedi gwaethygu ym mis Awst 2023. Ni chynhaliwyd adolygiad o'r cynllun gofal a chymorth presennol ar gyfer y gofalwr tan fis Ionawr 2024. **Caiff cynlluniau eu datblygu i fynd i'r afael ag amseroldeb ymatebion statudol ond rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y cynlluniau yn mynd i'r afael yn benodol â'r dull o ddatrys yr oedi.**

- Mae yna Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai. Mae'r fframwaith yn nodi'r modd y caiff canfyddiadau adroddiad sicrhau ansawdd chwarterol a chasgliadau y cytunwyd arnynt ag uwch-reolwyr, yn cael eu trafod â rheolwyr tîm i gefnogi dysgu a datblygiad a / neu i gydnabod arferion da. Yn weithredol, nid oes gan hyn broffil uchel. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried buddiannau diwygio'r broses o gyflawni'r strategaeth er mwyn sicrhau ei bod yn gynhwysol, gan sicrhau bod gan bob aelod o'r staff rôl yn sicrhau ansawdd. Dylai'r broses o gyflawni'r strategaeth ganolbwyntio ar y modd y caiff dysgu ehangach ei raeadru ar draws y gyfarwyddiaeth.**

    - Mae enghreifftiau pan na chynhelir asesiad lle gellid ymddangos bod angen un i ddechrau. Er enghraifft, ni chafodd unigolyn asesiad ar y cyswllt cyntaf a chafodd ei gynghori i gysylltu â gofalwyr micro yn uniongyrchol. Er y cynigiwyd asesiad iddo yn y pen draw, dim ond ar gais yr unigolyn y digwyddodd hyn a'r ffaith ei fod yn gyndyn o gysylltu â gofalwyr micro. **Rhaid i'r awdurdod lleol roi sicrwydd bod ei hunanasesiadau yn cael eu cynnal yn briodol, a bod pobl yn cael gofal amserol.**

## Llesiant

### Cryfderau

- Ceir cyfathrebu da rhwng asiantaethau partner a thimau mewnol wrth ddiogelu ymyriadau dan arweiniad y tîm diogelu.

- Ceir arferion da yn y tîm diogelu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, gyda llais a safbwyntiau pobl yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau diogelu.

### Meysydd i'w gwella

- Mae'r arferion diogelu yn anghyson. Mae hyn yn bennaf am nad yw adnoddau'r tîm, o ystyried y cynnydd ym maint a chymhlethdod y llwyth gwaith, wedi cynyddu yn gymesur â'r galw. Mae'r sefyllfa yn gwaethygu oherwydd ymddengys bod diffyg eglurder mewn perthynas â throthwy diogelu yn y grŵp amlasiantaeth. Roedd diffyg adnoddau i helpu oedolion i gadw'n ddiogel yn un o ganfyddiadau arolygiad a gynhaliwyd yn 2022 ac nid yw'r sefyllfa wedi newid. Mae ymarferwyr yn gweithio'n galed i gyflawni cyfrifoldebau statudol ond ni allant gyflawni ymarfer diogelu manwl yn gyson oherwydd y prinder amser i reoli maint y gwaith. Cydnabyddir y caiff adnoddau ychwanegol eu darparu i'r tîm diogelu. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ymateb a rheoli ymholiadau ynghylch diogelu oedolion.**

- Er y gall y tîm diogelu ymateb i bobl sy'n wynebu risg acíwt o niwed, ni allant gefnogi anghenion pobl o ran diogelwch a gofal a chymorth yn ddigonol wedi hynny heb reoli trosiant parhaus ymholiadau newydd a ddaw i law ynghylch diogelu oedolion. Mae'r sefyllfa'n gwaethygu oherwydd ar gyfer llawer o amgylchiadau, ni chaiff gwasanaethau na thimau eu sefydlu i weithio gyda phobl agored i niwed sy'n wynebu risg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i garfan o oedolion iau sydd ag anghenion cymhleth, sy'n aml yn cael eu cam-drin ac sydd â threfniadau byw ansefydlog. Ni chaiff llawer o'r bobl hyn gymorth amlasiantaethol wedi'i gydlynu. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ymateb a rheoli ymholiadau ynghylch diogelu oedolion.**

- O ystyried y swm aruthrol o waith a'r gyfradd brosesu yn y tîm diogelu, gall y ffocws ar ansawdd amrywio'n sylweddol. Nid yw rhai ymholiadau ynghylch diogelu oedolion yn ddigon clir na rhesymol. Yn fwyaf arwyddocaol, nid yw

bob amser yn glir pa fesurau diogelwch cyffredinol sydd ar waith i amddiffyn pobl. Fel y nodwyd yn 2022, mae angen ystyried yr holl risgiau perthnasol, gan archwilio'r holl ffactorau risg yn fanwl. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ymateb a rheoli ymholiadau ynghylch diogelu oedolion.**

- Gall ffeiliau timau diogelu gael eu cau yn rhy gyflym, gan ddibynnu ar asiantaethau eraill i roi cymorth a swyddogaeth monitro. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ymateb a rheoli ymholiadau ynghylch diogelu oedolion.**

<u>**Partneriaethau**</u>

**Cryfderau**

- Mae rhai enghreifftiau da o gyfathrebu rhwng ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a mynegir gweledigaeth a rennir gan uwch-reolwyr sy'n amlwg yn y gwaith o gynllunio ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaethau ataliol. Mae hyn yn cefnogi pobl i fyw'n iach yn y gymuned, heb orfod troi at wasanaethau statudol mwy ffurfiol.

- Mae enghreifftiau o ddull hyblyg sy'n canolbwyntio ar y person at drefniadau gweithio ar y cyd (gan gynnwys trefniadau cyllido) rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd i gefnogi pobl i barhau i fyw gartref. I un person, defnyddiwyd dull Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) i alluogi'r unigolyn i adael yr ysbyty cyn cael asesiad gofal iechyd parhaus. Yna cafodd y sefyllfa ei holrhain yn y gymuned mewn modd amserol, gan alluogi'r person i gael cefnogaeth gan ei deulu. Llwyddodd hyn i osgoi dibyniaeth ddiangen ar leoliad gofal iechyd acíwt.

- Ceir presenoldeb amlasiantaethol da mewn cyfarfodydd strategaeth a thystiolaeth o gyfathrebu a chyfranogiad da gan randdeiliaid allweddol, fel aelodau o'r teulu a darparwyr mewn cyfarfodydd diogelu a sgyrsiau cyffredinol.

**Meysydd i'w gwella**

- Yn weithredol, pan fydd staff gofal iechyd ac ymarferwyr awdurdod lleol yn cydweithio, gall pethau weithio'n dda. Gall datblygu'r dull cydweithio cychwynnol fod yn heriol, yn enwedig mewn perthynas â rhyddhau o'r ysbyty. Gall fod oedi wrth ymateb i bobl oherwydd cam-gyfathrebu a chamddealltwriaeth rhwng staff gofal cymdeithasol a staff gofal iechyd. Mae cynlluniau i werthuso'r gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty. **Dylai rheolwyr gofal**

**cymdeithasol a'r bwrdd iechyd barhau i gydweithio gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant y person drwy ddarparu gwasanaethau gyda'i gilydd.**

- Nid yw ymarferwyr gofal cymdeithasol yn cael adborth rheolaidd mewn perthynas â hysbysiadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn ddiogel a gyflwynir i ysbytai. **Mae hwn yn gyfle a gollir i wella prosesau cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth a dylai rheolwyr gofal cymdeithasol a'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â hyn.**

## 4. Y Camau Nesaf

Mae gennym bryderon difrifol ynghylch yr effaith ar ddiogelwch a llesiant pobl ag anghenion gofal cymdeithasol sy'n byw yn Sir Benfro. Rydym yn pryderu'n fawr o ystyried y ffaith bod difrifoldeb, amlder a pharhad y problemau yn golygu na ellir eu datrys drwy'r drefn arferol.

O ystyried lefel ein pryderon, mae AGC yn ceisio sicrwydd ynghylch y camau y mae'r awdurdod lleol yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffygion. Bydd AGC yn parhau i fonitro cyflymder y gwelliannau.

Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r arferion cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 5. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau 29 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom adolygu 23 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain chwech.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau â phedwar person sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr di-dâl ac ymatebodd 86 o bobl i'n harolwg.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau a grwpiau ffocws â 36 o gyflogeion yr awdurdod lleol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr tîm.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad. • Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-Gwybodaeth-bersonol.

## 6. Y Gymraeg

Roedd y tîm arolygu yn cynnwys arolygydd a oedd yn siarad Cymraeg, gan alluogi AGC i ddarparu'r cynnig rhagweithiol o ran cynnal rhan o'r broses arolygu yn Gymraeg.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol ar yr achlysur hwn, Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at y gwiriad gwella hwn yn Gymraeg.

## 7. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

## 8. Rhestr termau

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd statudol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg y gallai'r awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. |
| | Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |

| | |
|---|---|
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |